



Bil Plant Cymru

Cwestiynau Cyffredin

1. Pam mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru?

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes hir o gefnogi hawliau plant.

Bydd Bil Plant Cymru yn helpu i ddiogelu hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol.

Mae hynny'n golygu na fydd hi bellach yn dderbyniol i gosbi plant yn gorfforol yn Nghymru.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn parhau i fod yn sail i'n polisiau ar gyfer plant. Mae'n ganolog i'n ffordd o weithio i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a'u helpu i gyflawni eu potensial.

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cydnabod bod cosbi plant yn gorfforol, ni waeth pa mor ysgafn, yn anghydnaws â hawliau dynol plant o dan Erthygl 19 CCUHP, ac maen nhw wedi gofyn sawl gwaith i'r arfer gael ei ddiddymu. Mae'r Pwyllgor wedi **cyhoeddi sylw cyffredinol (Rhif 8)** sy'n cydnabod y dylid parchu hawl y plentyn i gael urddas dynol, uniondeb corfforol a'u diogelu yr un fath ag oedolion o dan y gyfraith.



2. Beth yw'r gyfraith ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, gall rhieni a'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis (yn lle rhiant) ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol os ydynt yn cael eu cyhuddo o ymosod cyffredin ar eu plentyn, neu ar blentyn dan eu gofal.

Nid yw'r amddiffyniad hwnnw ar gael i oedolion ei ddefnyddio os ydynt yn cael eu cyhuddo o ymosod ar oedolyn arall.

Mae canllawiau **Gwasanaeth Erlyn y Goron** yn nodi achosion lle gallai amddiffyniad cosb resymol gael ei ddefnyddio ar hyn o bryd:

- Yn ôl Gwasanaeth Erlyn y Goron dylid ei ddefnyddio mewn achos fel a ganlyn yn unig, sef "the injury is transient and trifling and amounted to no more than temporary reddening of the skin" – fel arall, byddai'r gosb yn cael ei hystyried i fod yn un ar lefel fwy difrifol nag ymosodiad cyffredin.
- Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch a oedd y gosb yn un resymol fyddai, er enghraifft, natur, cyd-destun a hyd y gosb, gan gynnwys y canlyniadau corfforol a meddyliol i'r plentyn.

3. Sut y bydd y gyfraith yn newid?

Os bydd y Bil yn cael ei basio, ni fydd trosedd newydd yn cael ei chreu.

Bydd y Bil yn dileu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin fel na ellir ei ddefnyddio gan unrhyw oedolyn i amddiffyn cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu ei guro. Bydd hynny'n golygu bod plant yn cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn yr un ffordd ag oedolion.

Bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol i gyfraith droseddol a chyfraith sifil.



4. Pwy fydd yn cael ei effeithio os bydd amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu yng Nghymru?

Bydd y gyfraith yn berthnasol i unrhyw oedolyn yng Nghymru sy'n gofalu am blant a phobl ifanc.

Mae cosbi plant yn gorfforol wedi'i wahardd ers cryn amser mewn ysgolion, mewn cartrefi i blant, ym maes gofal maeth awdurdodau lleol ac ym maes darpariaeth gofal plant.

Ond, gellir defnyddio amddiffyniad cosb resymol o hyd mewn lleoliadau sydd heb eu reoleiddio, sy'n cynnwys lleoedd dysgu, addoli, chwarae neu hamdden. Byddai'r Bil yn dileu'r man gwan hwnnw.

5. A fyddai'r gyfraith yn berthnasol i'r rheini sy'n ymweld â Chymru?

Byddai. Byddai'r gyfraith hon, fel cyfreithiau eraill, yn berthnasol i ymwelwyr ac i unrhyw un sy'n byw yng Nghymru.

6. Os bydd y gyfraith yn newid, beth fydd yn digwydd os byddaf yn cosbi fy mhlentyn yn gorfforol?

Os bydd yr heddlu'n derbyn adroddiad neu gŵyn fod plentyn wedi'i gosbi'n gorfforol gan oedolyn, byddan nhw'n ymchwilio i'r achos a phenderfynu a oes angen cymryd camau, ac os felly ar y camau i'w cymryd, ar sail y ffeithiau.

Ym mhob achos, bydd yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn seilio'u penderfyniad ar ddau brawf – a oes tystiolaeth i ddwyn cyhuddiad yn erbyn rhywun, ac a yw er budd y cyhoedd i wneud hynny? Byddan nhw hefyd yn ystyried yr hyn sydd er budd y plentyn.



7. Oni fydd hyn yn arwain at drin rhieni fel troseddwr?

Nid yw newid y gyfraith ynddo'i hun yn gwneud rhieni yn droseddwr. Eu gweithredoedd nhw mewn perthynas â'r gyfraith a allai eu harwain at gael cofnod troseddol. Os bydd oedolyn yn cosbi plentyn dan ei ofal yn gorfforol ar ôl i'r gyfraith newid, mae'n bosibl y bydd rhywun yn rhoi gwybod i'r heddlu amdano. Bydd camau gweithredu'r heddlu yn dibynnu ar y ffeithiau.

Ym mhob achos, bydd yr heddlu a/neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn seilio'u penderfyniad ar ddau brawf – a oes tystiolaeth i ddwyn cyhuddiad yn erbyn rhywun, ac a yw er budd y cyhoedd i wneud hynny? Byddan nhw hefyd yn ystyried yr hyn sydd er budd y plentyn.

8. A fydd hyn yn golygu bod plant yn cael eu diogelu rhag ymosodiadau yn yr un ffordd ag oedolion?

Os daw'r Bil yn gyfraith, bydd hynny'n golygu bod plant yn cael eu diogelu rhag cosb gorfforol yn yr un ffordd ag oedolion.

Bob dydd, mae rhieni a phlant yn rhyngweithio mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallai rhai enghreifftiau o'r rhyngweithio hwnnw gael eu hystyried yn ymosodiadau pe bydden nhw'n digwydd rhwng dau oedolyn. Er enghraifft, ni fydddech chi fel arfer yn gwisgo oedolyn yn erbyn ei ewyllys (byddai hynny'n ymosodiad), ond fel y byddai'r rhan fwyaf o rieni'n gwybod, weithiau mae'n anodd gwisgo plentyn, ac ar adegau rhaid ichi wneud hynny yn erbyn ei ewyllys i'w gadw'n gynnes, i'w alluogi i fynd y tu allan ac ati.

Mae'r gyfraith gyffredin yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol ac yn gyfreithlon i rieni ymgymryd ag ymyriadau corfforol penodol wrth arfer awdurdod rhiant mewn perthynas â phlant.

Mae oedolion yn defnyddio ymyriadau corfforol i gadw plant yn ddiogel rhag niwed. Er enghraifft, wrth ddal plentyn yn ôl rhag rhedeg i'r ffordd, neu atal plentyn i'w gadw rhag anafu ei hunan neu rhag anafu eraill, neu ei atal rhag rhoi ei law yn y tân neu rhag cyffwrdd â rhywbeth poeth. Mae'r mathau hyn o ymyriadau'n ymwneud â diogelu'r plentyn.

Mae rhieni'n rhoi mwythau i'w plant, yn brwsio'u gwallt, yn glanhau'u dannedd, yn chwarae'n wyllt gyda nhw ac yn eu codi i'w rhoi yn eu seddi yn y car – pethau sy'n digwydd bob dydd. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal y gweithgareddau hynny – unig nod y ddeddfwriaeth yw rhoi terfyn ar gosbi corfforol.



9. Faint o wledydd eraill sydd wedi cymryd camau gweithredu yn erbyn cosbi plant yn gorfforol?

Mae 54 o wladwriaethau o amgylch y byd wedi gwahardd cosbi plant yn gorfforol.* Y wladwriaeth gyntaf oedd Sweden yn 1979.

Cyflwynwyd Bil Aelod Preifat yn yr Alban ym mis Medi 2018 i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol ('reasonable chastisement') neu ymosodiad y gellir ei gyfiawnhau ('justifiable assault'). Yr enw arno yw 'The Children (Equal Protection from Assault) (Scotland) Bill'.

Ym mis Ionawr 2019, roedd Gwladwriaethau Jersey wedi pleidleisio o blaid cyflwyno deddfwriaeth i roi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol.

*Yn ôl Global Initiative to End All Corporal Punishment of Children **End All Corporal Punishment of Children**.

10. Beth yw barn rhieni am gosbi plant yn gorfforol?

Mae agweddau at arferion magu plant wedi newid dros y blynyddoedd.

Mae arolygon Llywodraeth Cymru o rieni a gwarcheidwaid i blant ifanc yng Nghymru wedi dangos newid mewn agweddau.

Er enghraifft, yn 2017, roedd 81% o'r sampl o rieni a gwarcheidwaid i blant ifanc yng Nghymru yn anghytuno bod angen smacio plentyn drwg weithiau, o'u cymharu â 71% mewn arolwg tebyg yn 2015.*

Gwelwyd hefyd fod gostyngiad sylweddol yn nifer y rhieni i blant ifanc yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn smacio eu plant, a phrin iawn oedd nifer y rhieni a ddywedodd eu bod yn gyfforddus â'r syniad.

* Llywodraeth Cymru. 2016. "Agweddau Rhieni Tuag At Reoli Ymddygiad Plant Ifanc: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15 – Arolwg Ail Gyswllt."

* Llywodraeth Cymru. 2018. "Agweddau Rhieni Tuag At Reoli Ymddygiad Plant Ifanc: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2017 – Arolwg Ail Gyswllt."



11. A yw cosbi plant yn gorfforol yn achosi niwed yn y tymor hir?

Roedd y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru – a elwir bellach yn Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) – wedi cynnal adolygiad o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag agweddau plant tuag at gosb gorfforol a'r cysylltiad rhwng cosb gorfforol gan rieni a'r effeithiau y mae'n ei chael ar blant. Cafodd yr adolygiad ei gyhoeddi ar 19 Gorffennaf 2018.*

Ar y cyfan, mae cydbwysedd y dystiolaeth yn cefnogi'r casgliadau canlynol:

- Mae cosb gorfforol ddifrifol a cham-drin plentyn yn gwneud niwed i ddatblygiad y plentyn;
- Er nad yw'r dystiolaeth yn dangos yn bendant fod cosb gorfforol 'resymol' yn achosi canlyniadau negyddol i blant, mae dystiolaeth ar gael sy'n dangos ei bod yn gysylltiedig â chanlyniadau negyddol;
- Nid oes unrhyw dystiolaeth ddibynadwy sy'n dangos bod cosb gorfforol 'resymol' yn achosi buddion datblygiadol yn y tymor hir, nac ychwaith ei bod yn fwy effeithiol wrth ddylanwadu ar newid ymddygiad yn y tymor byr, o'i chymharu â thystiolaeth am ddulliau eraill nad ydynt yn rhai corfforol;
- Nid yw cosbi plant heriol yn gorfforol yn fwy effeithiol wrth newid eu hymddygiad yn y tymor byr na ffyrdd eraill o ddisgyblu nad ydynt yn rhai corfforol;
- Barn y mwyafrif o ymchwilydd yn y maes hwn yw bod gan bob math o gosb gorfforol o dan unrhyw amodau y potensial i fod yn niweidiol i blant.

*Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. 2018. "Parental Physical Punishment: Child Outcomes and Attitudes." (Saesneg yn unig)

12. Ai dyma'r diwedd ar ddisgyblu plant gan rieni?

Nage. Mae angen disgyblaeth ar bob plentyn; mae'n rhan hanfodol o fagu plant yn dda. Ond, mae gwahaniaeth mawr rhwng disgyblu a chosb gorfforol.

Mae disgyblu plentyn yn ymwneud â rhoi ffiniau, arweiniad a chymorth i blentyn fel y gall ddysgu ymddygiad priodol. Ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar allu rhiant i wneud hynny.

Nid yw cosb gorfforol yn rhan anochel o ddisgyblu plant, a byddai'r ddeddfwriaeth hon yn gwahardd y defnydd ohoni.



13. Pam yr ydych chi'n defnyddio'r term 'cosb gorfforol' ac nid 'smacio'?

Smacio yw'r peth cyntaf yr ydyn ni'n meddwl amdano pan fyddwn ni'n meddwl am gosbi plentyn yn gorfforol, ond nid yw'r diffiniad – na'r defnydd o'r amddiffyniad o dan y gyfraith bresennol – yn golygu smacio yn unig.

Nid oes rhestr ddiffiniol o'r hyn y mae cosb gorfforol yn ei gynnwys.

14. Beth fydd effaith newid y gyfraith ar y gwasanaethau cyhoeddus?

Mae'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes yn derbyn adroddiadau ynghylch plant yn cael eu cosbi'n gorfforol, ac yn ymchwilio iddynt. Ac maent yn defnyddio'u gweithdrefnau arferol i benderfynu fesul achos ar sut i ymateb.

Byddwn yn cydweithio'n agos â nhw, ac â rhanddeiliaid allweddol eraill, drwy Grŵp Gweithredu'r Bil i ystyried y diwygiadau a allai fod angen eu gwneud (os bydd angen eu gwneud) i'w prosesau, eu gweithdrefnau, eu canllawiau a'u hyfforddiant.

15. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i gefnogi rhieni?

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Bil fel rhan o becyn llawer ehangach o gymorth i blant a'u rhieni, sydd eisoes ar waith.

Mae hyn yn cynnwys:

- yr ymgyrch Magu Plant: Rhowch amser iddo, sydd â'r nod o helpu rhieni i wneud eu gorau drwy roi awgrymiadau a gwybodaeth bositif am fagu plant
- amrywiaeth o wasanaethau sy'n hyrwyddo rhianta cadarnhaol gan lywodraeth leol a'r meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a'r trydydd sector
- cymorth sydd wedi'i dargedu'n fwy penodol, fel y rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf sy'n cynnig cymorth a chynghor i rieni.



16. Sut y gallaf gael rhagor o gyngor a chymorth ar fagu plant?

Mae nifer o ffyrdd i gael gwybod mwy – gan gynnwys

- Eich ymwelydd iechyd neu eich meddyg teulu.
- Yr ymgyrch **Magu Plant. Rhowch amser iddo**, sy'n cynnig awgrymiadau a gwybodaeth ar sut i fagu plant yn gadarnhaol.
- Rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi teuluoedd, fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf – sy'n gallu cynnig cymorth a chynghor.
- Eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol – sy'n gallu rhoi gwybod ichi am y cyngor, cefnogaeth a gweithgareddau sydd ar gael yn eich ardal. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio 0300 123 7777.
- Ymgyrch **'Camu'n ôl am 5'** y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) – sy'n gallu cynnig awgrymiadau i helpu rhieni i beidio â chynhyrfu mewn sefyllfaoedd heriol wrth fagu plant.
- Gallai fod o gymorth i drafod pethau hefyd. Mae **Family Lives** yn cynnig llinell gymorth (a arferai gael ei alw'n Parentline) sy'n gyfrinachol ac yn ddi-dâl (drwy linellau ffôn a thrwy'r rhan fwyaf o ffonau symudol). Gallwch ffonio 0808 800 2222 am wybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth ar unrhyw agwedd ar fagu plant a bywyd teuluol. Mae'r llinell gymorth (Saesneg yn unig) ar gael o 9am – 9pm, ar ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 10am – 3pm, ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.